OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 951 (Cy.82)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - -	*21 Mawrth 2007*
Yn dod i rym - -	*21 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22, 53(11) a (12), 56(5), 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007 ac maent yn dod i rym ar 21 Ebrill 2007.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001

2. Yn rheoliad 10 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001(**3**)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "(2) a (3)", rhodder "(2) i (3)"; a

(b) yn lle paragraff (2), rhodder—

"(2) Nid yw paragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol bod dogfen ar gael i'w harchwilio os yw'n ymddangos i'r swyddog priodol ei bod yn datgelu gwybodaeth esempt o ddisgrifiad syn dod o fewn Rhan 4 o Atodlen 12A i Ddeddf 1972 (Disgrifiadau o Wybodaeth Esempt: Cymru).

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) 1972 p.70.
(**3**) O.S. 2001/2290.